

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 16 Hydref 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CAM GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Cyrraedd targedau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer cael gwared ar hepatitis (B ac C) fel bygythiad sylweddol i iechyd y cyhoedd

Dyddiad dod i ben / adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Gofal Sylfaenol
Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau
Rhwydwaith Hepatoleg Clinigol
Gwasanaethau Gofal Iechyd y Carchardai
Fferylliaeth Gymunedol
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Er gwybodaeth i:

Ysgrifenyddion Byrddau
Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau
Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol
Cadeiryddion Byrddau Cynllunio Ardaloedd
Camddefnyddio Sylweddau
Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Cyffredinol
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif
Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Y sawl sy'n anfon Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Cyswllt/Cysylltiadau Llywodraeth Cymru AIGC :

Helen Tutt, Diogelu Iechyd, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Dogfen(nau) amgaeedig: Llythyr gan Brif Swyddog Meddygol Cymru

Annwyl Gydweithiwr,

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer y sector iechyd yn fyd-eang ynglŷn â hepatitis firysol. Mae'r strategaeth yn bwriadu cael gwared ar hepatitis B (HBV) a hepatitis C (HCV) fel clefydau sy'n berygl mawr i iechyd y cyhoedd erbyn 2030. Targed Sefydliad Iechyd y Byd yw 90% o ostyngiad yn nifer yr achosion a 65% o ostyngiad yn nifer y marwolaethau oherwydd hepatitis B ac C erbyn 2030. Mae Cymru wedi arwyddo i'r strategaeth hon.

Mae Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gynghori gan Is-grŵp Hepatitis Firysol o Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu ynglŷn â'r hyn sydd ei angen gan y GIG a phartneriaid er mwyn i Gymru gyrraedd y targed.

Mae meddyginiaethau gwrth-firysol newydd sy'n gweithredu'n uniongyrchol wedi chwyldroi'r driniaeth i hepatitis C fel bod y clefyd nawr, i bob pwrpas, yn un y mae modd ei iachau yn y camau cynnar. Mae triniaethau'n cael eu goddef yn dda ac maen nhw'n para cyfnod cymharol fyr. Mae'r newid paradeim yn y driniaeth yn rhoi cyfle i leihau'n sylweddol nifer yr achosion a pha mor gyffredin yw hepatitis C ymhob cymuned yng Nghymru. Gyda dyfodiad meddyginiaethau gwrthfirysol mwy effeithiol, dechreuodd Rhaglen Gyflwyno Triniaethau Hepatitis C Cymru gyfan yn 2014. Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn yn barod. Hyd yma, rydym wedi trin mwy na 1,000 o gleifion yn y 18 mis diwethaf ac erbyn hyn rydym wedi trin pob claf a oedd yn hysbys i wasanaethau yng Nghymru ac yn dal i gael gofal. Ers cyflwyno'r triniaethau newydd yma ac yn ôl yr arwyddion cynnar, mae tueddiad am i lawr yn yr angen am drawsblaniad afu mewn perthynas â haint hepatitis C a thueddiad am i lawr yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â hepatitis C (data'r DU).

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn sefydlu mesurau i wneud y canlynol:

1. Lleihau, ac yn y pen draw, atal HCV rhag parhau i gael ei drosglwyddo yng Nghymru;
2. Canfod unigolion sydd wedi'u heintio â HCV ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi cael HCV y tu allan i'r DU ac sydd nawr yn byw yng Nghymru; a
3. Profi a thrin unigolion sydd â HCV ar hyn o bryd ac sy'n cymryd rhan mewn ymddygiadau sy'n debygol o arwain at drosglwyddo pellach.

1. Lleihau, ac yn y pen draw, atal HCV rhag parhau i gael ei drosglwyddo yng Nghymru

I leihau ac yn y pen draw atal HCV rhag parhau i gael ei drosglwyddo yng Nghymru, bydd angen pecyn cyson a chadarn o ymyriadau iechyd wedi'i anelu at bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, sef y prif grŵp risg yng Nghymru. Prif elfennau'r gwaith atal yw Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrelli, triniaeth amnewid opioid ac ymyriadau seicogymdeithasol i leihau ymddygiad peryglus. Ymdrinnir â rhain yn y strategaeth bresennol ar gyfer Cymru, sef ['Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018'](#) ac yn arbennig y [Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau diweddaraf, sef 2016-18](#). Bydd unrhyw ostyngiad yn y mentrau ataliol sylfaenol yma yn tanseilio'r rhannau eraill o strategaeth effeithiol;

felly rhaid cael adnoddau i sicrhau bod yr amcanion ataliol ehangach yn cael eu cyflawni, gan gydnabod bod y modelau cyllid presennol yn golygu bod angen ymrwymiad parhaus gan y llifoedd arian iechyd a chymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

- Mae'n hanfodol datblygu a gweithredu gwasanaethau allgymorth grymusol effeithiol a chyson er mwyn ymgysylltu ag unigolion sydd heb fod mewn cysylltiad â gwasanaethau ar hyn o bryd, gan gynnwys pobl ifanc ddigartref a phobl sydd â llety ansefydlog, pobl sydd mewn perygl o chwistrellu, a gweithwyr rhyw.
- Er bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn bodoli eisoes ym maes Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrelli, rhaid ymdrin â mwy o offer chwistrellu di-haint ar gyfer pob achos o chwistrellu fel nad yw'n parhau i gael ei drosglwyddo.
- Nid yw chwistrellu cyffuriau, a throsglwyddo hepatitis C, yn digwydd dim ond ymysg y rhai sy'n chwistrellu heroin. Felly, yn ogystal â thriniaeth o ansawdd uchel i amnewid opioid, rhaid datblygu dewis o driniaethau ar gyfer pobl sy'n defnyddio a/neu'n chwistrellu amrywiaeth o symbylyddion a chyffuriau helaethu perfformiad a delwedd fel bod llai o chwistrellu cyffuriau a'r risgiau cysylltiedig.

2. Canfod unigolion sydd wedi'u heintio â HCV gan gynnwys rhai sydd wedi cael HCV y tu allan i'r DU ac sydd nawr yn byw yng Nghymru

2.1 Unigolion sydd wedi'u heintio â hepatitis C heb fod â chysylltiad â gofal

Mae nifer o unigolion wedi cael diagnosis o hepatitis C ond sydd, am amryw o resymau gwahanol, heb gael cysylltiad â gofal neu sydd erioed wedi cael ymchwiliad dilynol neu driniaeth (er enghraifft os cawsant ddiagnosis cyn i unrhyw driniaeth fod ar gael) ac y mae modd eu canfod nawr drwy chwilio system ddata labordai ("Datastore, sef storfa ganolog o ganlyniadau labordai). Amcangyfrifir bod tua 5,000 o unigolion yn y garfan yma. Mae angen dybryd i gyfeirio'r unigolion yma am ragor o brofion a thriniaeth er mwyn lleihau niwed parhaus i'r afu.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2017, bydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddigon o wybodaeth wedi'i chasglu o systemau labordai i ganfod yr unigolion yma, a bydd yn rhoi gwybod i feddygon teulu cleifion sydd wedi'u heffeithio ac sydd wedi cofrestru yn eu meddygfa. Mae Is-grŵp Hepatitis Ffyrsol Cymru o'r Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu yn datblygu canllaw a llwybrau gofal i roi cymorth i ofal sylfaenol allu cyfathrebu â'r cleifion yma. Bydd y canllaw ar gael erbyn Rhagfyr 2017.

- O fis Ionawr 2018 ymlaen, dylai nyrsys lleol ym maes ffyrsau a gludir yn y gwaed weithio gyda meddygon teulu yn eu hardal i sicrhau bod y broses o gysylltu ag unigolion sydd â haint hanesyddol, a'u cefnogi drwy'r profion a'r driniaeth, yn achosi cyn lleied o bryder â phosibl ac yn cael ei chynnal mor gyflym â phosibl. Dylid sefydlu mesurau i sicrhau bod yr ymarferiad wedi cael ei gwblhau ymhob bwrdd iechyd erbyn Rhagfyr 2019.
- Ar yr un pryd, dylai gwasanaethau labordy gysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru / a gwasanaethau ID / Hepatoleg i sicrhau bod modd cael y cynnydd a ddisgwyllir mewn profion hepatitis C.

2.2 Canfod unigolion sydd wedi'u heintio â hepatitis C, sydd heb gael eu profi erioed ac sydd heb fod yn gwybod am eu haint.

Mae profi HVC ar sail amlygrwydd i risg yn hytrach na diagnosis clinigol o symptomau yn digwydd ar hyn o bryd drwy wasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau meddygaeth genhedlol-wrinol, carchardai ac mewn rhai lleoliadau gofal sylfaenol ledled Cymru. Er gwaethaf ymdrechion dros y degawd diwethaf i gynyddu'r ardaloedd lle mae profion, mae cyfraddau diagnosis yn dal yn isel ac nid yw llawer o unigolion sydd â hepatitis C yn gwybod am eu statws.

- Mae angen cynyddu'r profion yn y lleoliadau uchod i gyd, a bydd byrddau iechyd eisiau ystyried a fyddai'n llesol mabwysiadau profion optio allan mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Dylai comisiynwyr y gwasanaethau yma, o leiaf, gynnwys gofyniad i gadw at y profion blynyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Hefyd, dylai profion am hepatitis C gael eu cynnal mewn gwasanaethau ceisio lloches, gwasanaethau digartrefedd, ac unrhyw wasanaeth sydd â mynediad at boblogaeth lle mae'n gyffredin (er enghraifft campfeydd sydd â defnyddwyr cyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd).
- Dylai pob bwrdd iechyd ystyried pa boblogaethau sydd â'r mwyaf o risg yn eu hardal a gweithio gyda gwasanaethau Byrddau Cynllunio Ardaloedd Camddefnyddio Sylweddau, asiantaethau'r trydydd sector, arweinwyr firysau a gludir yn y gwaed a nyrsys firysau a gludir yn y gwaed er mwyn gweithredu strategaethau profi effeithiol.

Mae Is-grŵp Hepatitis Firysol o'r Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu wrthi'n cynnal nifer o gynlluniau treialu mewn lleoliadau cymunedol gwahanol, a bydd yn rhannu'r strategaethau sy'n effeithiol.

3. Profi a thrin unigolion sydd wedi'u heintio â HCV ar hyn o bryd ac sy'n cymryd rhan mewn ymddygiadau sy'n debygol o arwain at drosglwyddo pellach

Yng Nghymru, mae'r lefel fwyaf o haint hepatitis ymysg pobl sy'n chwistrellu cyffuriau. Mae tua 23,000 o unigolion yn cael gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chyfnewid nodwyddau. Mae llawer o'r rhain yn dod o gymunedau difreintiedig ac ar yr ymylon. Nid ydynt yn effeithiol iawn am fanteisio ar fodolau traddodiadol o ofal iechyd. Dylai profion ar gyfer yr unigolion yma a'r triniaethau gael eu darparu mewn lleoliadau ac awyrgylch sy'n gyfarwydd iddyn nhw, lle maen nhw'n gyfforddus a lle maen nhw'n debygol o ddod i gael triniaeth.

Mae darparu profion a thriniaeth i'r unigolion yma ar raddfa fwy na'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn rhywbeth posibl a phriodol. Mae'r triniaethau newydd yn cael eu goddef yn dda ac maen nhw'n effeithiol iawn felly mae'n bosibl darparu'r ddau beth mewn gwasanaethau cymunedol (mae 99% o driniaeth hepatitis C yn yr Alban yn cael eu darparu drwy fferyllfeydd cymunedol). Po fwyaf y cleifion sy'n cael eu trin yn llwyddiannus bob blwyddyn, y cyflymaf y bydd gostyngiad yn nifer yr achosion yn y gymuned. Mae cynyddu triniaethau mewn modd llwyddiannus a chyflym yn gallu bod yn gost-effeithiol iawn oherwydd mae triniaeth llwyddiannus yn gallu tarfu ar

drosglwyddiad (mae'n bosibl i bob triniaeth unigol lwyddiannus atal nifer o heintiadau newydd).

- Dylai byrddau iechyd weithio gyda nyrsys firysau a gludir yn y gwaed a fferyllfeydd cymunedol i weithredu model cyflenwi ar gyfer Cymru fel bod profion a thriniaethau i haint mewn fferyllfeydd cymunedol wedi dechrau yn ardaloedd pob bwrdd iechyd erbyn 2020, ac erbyn 2025 fod triniaeth mewn lleoliadau cymunedol yn ddigon i gwrdd â'r galw.
- Dylai byrddau iechyd weithio gydag Is-grŵp Hepatitis Firysol Cymru o Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu a Fferylliaeth Gymunedol Cymru i sicrhau bod yr holl waith paratoi angenrheidiol wedi'i gwblhau erbyn 2020. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Cytuno ar dargedau a thariffau cenedlaethol, gan gynnwys tariff ar gyfer darparu triniaeth gan gynnwys triniaeth dan oruchwyliaeth pan fo angen a thariff y cytunir arno yn genedlaethol ar gyfer rhoi meddyginiaethau hepatitis C.
 - Ychwanegu meddyginiaethau hepatitis C i'r rhestr o gyffuriau heb dynnu disgownt er mwyn iddynt allu cael eu rhoi ar bresgripsiwna'u dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol.
 - Hyfforddi fferyllfeydd ar gynnal profion gwaed sych ar gyfer hepatitis C.
 - Datblygu trefn ar gyfer monitro darpariaeth a llwyddiant triniaeth yn y gymuned.
 - Strategaeth ar gyfer goruchwyllo triniaeth a chasglu data canlyniadau.
 - Systemau cyfrifiadurol ar gyfer monitro cleifion, gan gynnwys goruchwyllo o bell

Dylai cynlluniau tymor canolig integredig ddweud sut bydd y gofynion dileu yn cael eu cyflawni, a bydd hynny'n cael ei fonitro drwy gyfarfodydd y Cyd-Dîm Gweithredol lle bydd disgwyl i'r byrddau iechyd adrodd yn ôl ynghylch cynnydd.

Yn gywir,



Dr Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Cyfeiriadau

1. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/428942/BBV_pathfinder_evaluation_Phase_1_FINAL.PDF
2. Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Hepatitis Feirysol a Gludir yn y Gwaed 2010-2015:
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=25483>
3. Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu, 2016:
<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/liver-disease/?lang=cy>